# LIC25-68

## BWYD, CYMRU

## CYNHYRCHION A REOLEIDDIR, CYMRU

### CYFLASYNNAU BWYD

## Pennu statws awdurdodi: dirymu awdurdod i ddefnyddio 8 cyflasyn sydd yn y broses o gael eu gwerthuso

**Nodyn egluro**

*(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)*

Gwnaed y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru yn arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 2B a 7 o Reoliad (EC) Rhif 1331/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd (EUR 2008/1331).

Mae'r penderfyniad hwn yn dirymu awdurdod i ddefnyddio'r 8 cyflasyn a bennir yn yr Atodlen ac sydd yn y broses o gael eu gwerthuso.

Mae mesur trosiannol i ganiatáu i'r 8 cyflasyn a'r bwydydd sy'n eu cynnwys aros ar y farchnad a chael eu hychwanegu at fwydydd, cyhyd â'u bod eisoes yn bresennol yn y Deyrnas Unedig neu'n cael eu cludo i Brydain Fawr cyn [X DYDDIAD], ac i ganiatáu i'r bwydydd sy'n eu cynnwys gael eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio nes iddynt gyrraedd eu 'date of minimum durability' neu ddyddiad 'use by'.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

---

# Penderfyniad

### Cymhwyso a dod i rym

1. Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 13eg Hydref 2025.

### Dehongliad

2. Mae pob ymadrodd a ddefnyddir yn y penderfyniad hwn sydd hefyd yn cael eu defnyddio yn Rheoliad (EC) Rhif 1331/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd (EUR 2008/1331) neu Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol sydd â phriodweddau blas i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd (EUR 2008/1334), maen nhw'n rhannu yr un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliadau hynny.

3. Mae "Date of minimum durability of a food" ac "use by date" yr rhannu'r un ystyr ag sydd ganddynt yn Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (EUR 2011/1169).

**Penderfynu ar statws awdurdodi 8 cyflasyn sy'n y broses o gael eu gwerthuso**

4. Mae'r awdurdodiadau ar gyfer y cyflasynnau a bennir yn yr Atodlen ac sydd yn y broses o gael eu gwerthuso yn cael eu dirymu.

**Darpariaeth drosiannol**

5. Caniateir i'r cyflasynnau a bennir yn yr Atodlen ac sydd yn y broses o gael eu gwerthuso, yn ogystal â'r bwyd sy'n eu cynnwys, gael eu rhoi ar y farchnad hyd at eu dyddiad 'minimum durability' neu 'use by', ac, yn ôl y digwydd, eu hychwanegu at fwyd arall, os oeddent —

    a. yn bresennol yn y Deyrnas Unedig ac wedi, neu allent fod wedi, cael eu gosod yn gyfreithlon ar y farchnad ym Mhrydain Fawr cyn diwedd 12fed Hydref 2025; neu

    b. yn cael eu cludo i Brydain Fawr cyn diwedd 12fed Hydref 2025, a gellid bod wedi cael eu mewnforio neu ei symud i Brydain Fawr yn gyfreithlon a'u rhoi ar y farchnad ar y dyddiad hwnnw.

6. Caniateir i fwyd sy'n cynnwys un neu fwy o'r cyflasynnau y mae paragraff 5 yn cyfeirio atynt, hyd at ei ddyddiad 'minimum durability' neu 'use by', gael ei roi ar y farchnad a, yn ôl y digwydd, ei ychwanegu at fwyd arall.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2025

# ATODLEN

| Cyflasynnau sydd yn y broses o gael eu gwerthuso ac y mae awdurdodiad ar eu cyfer wedi'i ddirymu |
|---|
| • FL No. 05.175, enw cemegol 2-Phenylpent-2-enal<br>• FL No. 05.222, enw cemegol 2-Phenyl-4-methyl-2-hexenal<br>• FL No. 15.029, enw cemegol 2-(sec-Butyl)-4,5-dimethyl-3-thiazoline<br>• FL No. 15.030, enw cemegol 4,5-Dimethyl-2-ethyl-3-thiazoline<br>• FL No. 15.060, enw cemegol 2,4-Dimethyl-3-thiazoline<br>• FL No. 15.119, enw cemegol 2-Isobutyl-3-thiazoline<br>• FL No. 15.130, enw cemegol 5-Ethyl-4-methyl-2-(2-methylpropyl)-thiazoline<br>• FL No. 15.131, enw cemegol 5-Ethyl-4-methyl-2-(2-butyl)-thiazoline |